**363 – Rhyddiaeth dan 25 oed: Blog**

**Blog i wefan leol Bro360**

**Beirniadaeth**

**1af – Robin**

Blog sy'n rhoi 'tips' i rywun o gefn gwlad sy'n mynd i'r Brifysgol yng Nghaerdydd. Roeddwn yn hoffi'r syniad, ac yn teimlo y byddai'n ddarn allai weddu gwefan leol yng nghefn gwlad ar y naill law, neu wefan leol y brifddinas ar y llall. Gyda blog, fel colofn mewn cylchgrawn neu bapur newydd, teimlaf ei bod yn bwysig clywed llais yr awdur, a siarad o safbwynt personnol. Dwi'n teimlo bod hyn yn glir iawn yn y darn yma, ac mae'r awdur wedi defnyddio profiadau personnol. Mae'r arddull yn ysgafn, gydag ychydig o hiwmor a defnydd da o idiomau. Ac mae'r cynghorion yn rai da! Dyma ddarn sy'n gwneud i rywun deimlo'n gynnes ac yn dda, ac a fyddai'n denu darllenwyr yn ôl i ddarllen mwy gan y blogiwr.

**2ail – Stitch**

Trafodaeth am y stigma ynghylch â bechgyn yn canu mewn corau, sy'n bwnc mae'r blogiwr yn amlwg yn teimlo'n gryf amdano. Mae'n gosod cyd-destun yn dda gan egluro'r rheswm dros ysgrifennu'r darn cyn mynd ymlaen i sôn am hanes corau mebion. Mae'r darn wedi ei ysgrifennu mewn Cymraeg graenus, gyda geirda dda - mae'n erthygl swmpus ond wedi'i strwythuro'n effeithiol gydag adrannau i dorri'r darn a chyflwyno onglau gwahanol. Os oes beirniadaeth, yn efallai ei fod ychydig yn rhy hir am ddarn blog, ac mae ychydig o ail-adrodd mewn mannau – mae hynny'n gallu bod yn ffordd dda o roi pwyslais, ond i beidio gor-ddefnyddio. Mae'n trafod profiadau personnol mewn modd gonest ac mae hynny'n arwydd o flog da.

**3ydd – Beiro**

Mae sawl math gwahanol o flog, ac mae blogiau byw yn ffordd effeithiol o roi sylw i ddigwyddiadau penodol, ac yn enwedig digwyddiadau lleol. Mae Beiro yn cynnig rhywbeth gwahanol i'r cystadleuwyr eraill wrth roi sylw i Eisteddfod Ysgol Aberaeron. Dyma'r blog mwyaf perthnasol i friff y gystadleuaeth o flog i wefan leol mae'n siŵr, ac mae'r awdur yn amlwg yn deall ac yn gwerthfawrogi'r cyfrwng. Ceir arddull ysgafn sy'n denu'r darllenydd i mewn gydag ychydig o hiwmor, a naws agos atoch chi. Mae'r darn yn disgyn rhwng dwy stôl braidd rhwng dyddiadur a blog byw, neu fel arall fe fyddai mewn safle uwch.

***Sylwadau ar y cystadleuwyr eraill***

**Blodeuwedd** – Dyma ddarn aeddfed wedi'i ysgrifennu'n dda ac sy'n dangos gwaith ymchwil trylwyr. Darn ymchwiliadol sydd yma'n holi am ddyfodol y theatr yng Nghymru,

ac mae’r awdur wedi siarad gyda sawl person yn y byd hwnnw am yr heriau maent yn eu wynebu. Mae’n cyffwrdd â’r elfen leol o’r briff trwy gyfeirio at bobl sy’n gweithio mewn ardaloedd penodol. Mae wedi ei strwythuro a’i ysgrifennu’n dda iawn a petai hon yn gystadleuaeth am erthygl yn hytrach na blog fe fyddai tua’r brig yn sicr. Ond dwi’n gweld y darn yn rhy drwm, ac yn eisiau mwy o safbwynt personnol i fod yn ddarn blog.

**Llais Afon Gwy** – Blog hanes i helpu cysylltu pobl ifanc gyda’r gorffennol mewn ffordd hygyrch. Dwi’n hoff iawn o’r cysyniad ac mae’r awdur wedi cywain gwybodaeth a’i gyflwyno’n gryno ac yn glir. Mae’r blog wedi’i dorri fyny’n dda gyda graffeg a lluniau i osgoi bod yn rhy drwm. Yr hyn sydd ar goll ydy ychydig mwy o gyd-destun am y pynciau a pam dewis rhain i’w trafod. Mae’r awdur wedi adnabod cynulleidfa benodol i’w thargedu, ond fe ellid bod wedi gwneud mwy o gysylltiad gyda bywyd cyfoes yn 2026, fel sy’n cael ei awgrymu yn y cyflwyniad.

**Minnie Mouse** – Blog ‘positif’ ydy hwn yn cyflwyno rhai o’r ‘pethe’ Cymraeg – eisteddfodau, cerddoriaeth Gymraeg a’r cyfryngau Cymraeg. Dwi’n hoff iawn o’r arddull ysgafn a hiwmor o’r dechrau ac mae cyflwyniad bach difyr sy’n cynnwys ychydig o hanes a chefndir y pynciau dan sylw. Fyswn i wedi hoffi cael mwy o gyd-destun ynglŷn â phwy mae’r blog yn ei dargedu o ran cynulleidfa gan bod hyn ychydig yn aneglur. Ond mae’n darllen yn dda a dwi’n hoff o’r syniad o gyflwyno’r pethe mewn modd cadarnhaol.

**Wilson** – Darn yn trafod beth ydy Cymru, a bod yn Gymro i’r awdur. Dyma ddarn bach difyr a bachog sy’n cyflwyno nifer o ddadleuon a theimladau personnol yn gynnil. Efallai ei fod yn debycach i golofn cylchgrawn na darn blog? Ond mae wedi ei ysgrifennu’n dda ac mae llais yr awdur i’w glywed.